**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**

**Dyddiad:** 26 Mehefin 2003
**Amser:** 09:00
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgorau 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Crynodeb o sylwadau gwahoddedigion sefydlog.

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd gan y gwahoddedigion sefydlog ar eu rôl yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a sut i'w wella.

**Argymhelliad**

2. Dylai'r papur hwn gael ei ystyried ochr yn ochr a phapur 2 0 EUR(2) 01-03(p2) - ar rôl y gwahoddedigion sefydlog.

**Cefndir**

3. Ysgrifennodd y Cadeirydd at wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor ar 5 Mehefin 2003 i ofyn am eu sylwadau ar sut i wella'u rôl yn y Pwyllgor. Gofynnwyd iddynt ateb y cwestiynau canlynol:

- A ddylai'r rhai sydd eisoes yn cael eu gwahodd barhau i dderbyn gwahoddiad?
- A oes unrhyw sefydliadau eraill y gall eu harbenigedd fod o fudd i'r Cynulliad?
- A ddylai'r hen arfer o wahodd gwahoddedigion sefydlog i gyflwyno adroddiad ar ddiwedd y cyfarfod barhau? Ym mha ffordd arall y gall gwahoddedigion sefydlog rannu eu harbenigedd â'r Pwyllgor?
- Unrhyw awgrymiadau eraill ar sut y gallai'r Pwyllgor a'r gwahoddedigion sefydlog eu hunain gael y budd mwyaf o'u cyfraniad.

4. Erbyn 23 Mehefin, roedd atebion wedi dod i law oddi wrth Janet Davies AC, Jan Royall, Jonathan Evans ASE, Eluned Morgan ASE, Glenys Kinnock ASE, Eurig Wyn ASE a Rosa D'Sa.

**Crynodeb o'r sylwadau**

5. Mae'r pwyntiau a godwyd wedi'u crynhoi yn y paragraffau canlynol.

***Janet Davies AC***

- Dylai'r gwahoddedigion sefydlog presennol barhau i dderbyn gwahoddiad.
- Byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau ar gyfraniad gwahoddedigion sefydlog at drafodaethau cyffredinol ac ar yr adroddiad ar ddiwedd y cyfarfod.
- Gall adroddiadau llafar ar ddiwedd y cyfarfod arwain at godi materion pwysig ond ni fyddai amser i'w trafod.
- Beth am ystyried cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig?

***Eluned Morgan ASE***

- Byddai'n hoffi parhau i dderbyn gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor a chael y papurau.
- Roedd y cyfarfodydd yng nghanol yr wythnos yn peri anhawster.
- Mae'n bwysig iawn bod y Pwyllgor yn ystyried goblygiadau'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop.
- Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn ailstrwythuro'u weithgareddau i'w alluogi i ystyried cynigion Ewropeaidd drafft a'u goblygiadau i Gymru.
- Dylai materion Ewropeaidd fod ar agendâu pob Pwyllgor ym mhob cyfarfod, er mwyn i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol allu ysgwyddo rôl fwy strategol.
- Dylai'r Pwyllgor fod yn fwy gweithgar wrth roi gwybod i'r cyhoedd am oblygiadau arian sengl, ni waeth a yw'r DU yn aelod ai peidio.

***Glenys Kinnock ASE***

- Dylai'r Pwyllgor gyfarfod yn fwy rheolaidd.
- Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn gyfyngedig iawn o'i gymharu â'r Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol yn yr Alban.
- Efallai y byddai sesiwn 'saethu syniadau' ar sut i ddatblygu cylch gwaith y Pwyllgor yn ddefnyddiol.
- Bu'n anodd iawn i ASE'au fynychu'r cyfarfodydd ac felly mae'n bwysig rhoi digon o rybudd cyn cyfarfod.

***Eurig Wyn ASE***

- Mae'n awyddus i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ond mae'n ei chael hi'n anodd gwneud hynny am ei fod yn byw y tu allan i Forgannwg.
- Efallai bod fideo gynadledda yn un ffordd y gall bobl gyfrannu at y cyfarfod os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol.

***Jonathan Evans ASE***

- Mae angen i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol adolygu ei amcanion a datblygu ffocws cliriach.
- Mae angen i'r Pwyllgor ddilyn trywydd materion a godir gan y gwahoddedigion sefydlog i'r pen er mwyn cael y gorau o'u cyfraniad.
- Byddai'n well petai'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r ASE'au ddwywaith y flwyddyn i drafod pynciau sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, ac wedyn yn cynnal cyfarfodydd ychwanegol pe bai materion penodol yn codi.

***Jan Royall***

- Byddai wrth ei bodd yn cael bod yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor, gan y byddai'n ffordd bwysig iddi arfer un o'i dyletswyddau sef hysbysu'r Comisiwn am safbwynt Cymru a vice versa.

- Mae'r rhestr bresennol o wahoddedigion sefydlog yn dderbyniol ac efallai y gellir gwahodd sefydliadau eraill o bryd i'w gilydd e.e. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Byddai'n ddigon bodlon i roi adroddiad ar ddiwedd y cyfarfod.

***Rose D'Sa***

- Mae'r trefniadau presennol yn effeithiol.
- Mae bod yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor yn ddefnyddiol, ac mae'n croesawu'r ffaith nad yw'r gwahoddiad yn golygu bod gorfodaeth arni i fynychu'r cyfarfodydd.
- Byddai'n well ganddi gyflwyno adroddiad llafar i'r Pwyllgor yn hytrach nag adroddiad ysgrifenedig.
- Dylai unigolion a sefydliadau eraill gael eu gwahodd i gyfrannu at eitemau penodol.

**Gweithredu**

6. Gofynnir i'r aelodau benderfynu pa rôl ddylai fod gan wahoddedigion sefydlog yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn y dyfodol.

**Man Cyswllt**
Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor